

## Cyfarfod y Grŵp Gwybodaeth Tai

18 Hydref 2018

Ystafell Caernarfon, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd

<b>Yn bresennol</b>	
Peter Mackie (PM)	Collaborative Centre for Housing Evidence (CaCHE)
Nia Roblin (NR)	Cymdeithas Tai Unedig Cymru
Andrew Connell (AC)	Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
John Harper	Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
Bob Smith	Collaborative Centre for Housing Evidence (CaCHE)
Jamie Matthews	Cyngor ar Bopeth
Catherine May	Sefydliad Tai Siartredig (CIHC) Cymru
Ceri Meloy	Tai Pawb
David Wilton	TPAS Cymru
Louise Woodfine	GIG Cymru
Paul Webb (PW)	Llywodraeth Cymru (Polisi Tai)
Gowan Watkins (GW)	Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi)
Luned Jones (LJ)	Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi)
Sue Leake (SL)	Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi)
Katherine Green (KG)	Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi)
Judy David (JD)	Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi)
Steve Palmer (SP)	Llywodraeth Cymru (Polisi Tai)
Mel Brown	Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi)
Jamie Cleves	Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi)
Samantha Collins (SC)	Llywodraeth Cymru Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi)
Craiger Solomons (CS)	Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi)
Gareth Brand	Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi)
James Burgess	Llywodraeth Cymru (Polisi Tai)
Paul Robinson	Llywodraeth Cymru (Polisi Cynllunio)
Simon White	Llywodraeth Cymru (Polisi Tai)
Simon Prothero	Llywodraeth Cymru (Polisi Tai)

<b>Ymddiheuriadau</b>	
Sara Ahmad	Llywodraeth Cymru
Lucie Griffiths	Llywodraeth Cymru
Sarah Lowe	Llywodraeth Cymru
Lesley Groves	CBS Torfaen
Mark Harris	House Builders Federation
Chantal Jordon	Cyngor Sir Gâr
Carol Kay	Llywodraeth Cymru
Nick Morris	Crisis
Katie Needham	Tai Sir Fynwy
Andrew Stephens	Uned Ddata Cymru
Karl Thomas	Llywodraeth Cymru
Alyn Williams	Llywodraeth Cymru
Michelle Lewis	Cyngor ar Bopeth
Elizabeth Williams	Cyngor ar Bopeth
Adam Provost	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

## 1. Croeso a chyflwyniad

Croesawodd PW bawb i'r cyfarfod.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

Aeth LJ trwy'r camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf:

- Cam gweithredu 1 – cadarnhaodd LJ fod y gwaith o sicrhau ansawdd data digartrefedd yn parhau
- Cam gweithredu 2 – heb ei gwblhau eto
- Cam gweithredu 3 – wedi'i gwblhau ac SL i sôn amdano fel rhan o eitem ar yr agenda
- Cam gweithredu 4 – gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol awgrymu pynciau ar gyfer y seminar ar 24 Ionawr 2019.

## 3. UK Collaborative Centre for Housing Evidence (CaCHE) – Diweddariad

Rhoddodd BS drosolwg byr o'r [UK Collaborative Centre for Housing Evidence](#) (CaCHE) sef consortiwm o 11 o brifysgolion ynghyd â CIH a RICS dan arweiniad Prifysgol Glasgow. Ymdrinnir â saith thema eang ym maes tai; mae rhai prosiectau wedi'u cwblhau erbyn hyn ac mae adroddiadau i gael eu cyhoeddi ar [y wefan hon](#) (Saesneg yn unig) gan gynnwys:

- Effaith diwygio lles ar gymdeithasau tai
- Dyheadau rhwystredig y genhedlaeth sy'n gorfod rhentu
- Effaith trethiant ar incwm aelwydydd

Mae dau adroddiad arall ar y gweill ynghylch 'Atal digartrefedd' a 'Newidiadau yn y sector rhentu'. Bydd cyfres o adroddiadau ynghylch tai cymdeithasol a gyhoeddwyd gan CaCHE gan gynnwys un ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018 yn darparu gwybodaeth ar gyfer ymatebion i'r Papur Gwyrdd ar dai yn Lloegr ac yn darparu gwybodaeth ar gyfer yr Adolygiad o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy yng Nghymru.

Cynhaliwyd ail weithdy / cyfarfod Hyb ym mis Medi gyda thenantiaid a TPAS Cymru. Nododd hyn ddeg thema flaenoriaethol ar gyfer prosiectau ymchwil posibl yn y dyfodol yn 2019 a darperir adborth i Hyb Cymru. Bydd hyn yn adlewyrchu unrhyw wahaniaethau o ran blaenoriaethau ar draws pedair cenedl y Deyrnas Unedig.

Mae dau ddigwyddiad ar y gweill, digwyddiad Tai ac Iechyd ar 5 Rhagfyr 2018 a digwyddiad Ymchwil Tai ym mis Ionawr 2019.

Ar hyn o bryd mae Ian Thomas (CaCHE) yn gweithio ar brosiect gyda Llywodraeth Cymru yn edrych ar ddichonoldeb casglu data digartrefedd statudol unigol yr adroddir arno yng ngwanwyn 2019.

## 4. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru – diweddariad

Rhoddodd AC ddiweddariad ar y tri phrif ddarn o waith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

- Llwybrau Atal Digartrefedd ymhlith Pobl Ifanc – mae hwn i fod i gael ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Hydref
- Dyledion Gwasanaethau Cyhoeddus – mae adroddiad drafft sy'n edrych ar ôl-ddyledion Treth Cyngor, ôl-ddyledion rhent a chymorth i denantiaid wedi'i gwblhau ac wedi'i ddsbarthu i gael sylwadau

- Senarios digartrefedd yn y dyfodol i Gymru – mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

## **5. Diweddariad ar brosiectau allweddol yn gysylltiedig ag ystadegau Tai - Cyflwyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – Samantha Collins (SC)**

Rhoddodd SC drosolwg o MALIC gan gynnwys y parth Tai a'r datblygiadau cyfredol. Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar y diweddariad nesaf i MALIC, sy'n cau ar 17 Rhagfyr. Caiff crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2019 a disgwylir cyhoeddi diweddariad nesaf MALIC yn hwyr yn 2019. Mae rhai o'r mesuriadau arfaethedig newydd o amddifadedd yn cynnwys argaeledd cyffredinol band eang a mesuriad iechyd yn ymdrin â phlant â phwysau afiach.

O'r blaen roedd cyfyngiadau ar y dangosyddion tai a ddefnyddiwyd yn MALIC oherwydd diffyg data ar lefel ardaloedd bach. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylai'r dangosydd gorlawnder aros ond y dylai'r dangosydd ar argaeledd gwres canolog gael ei ddisodli gan fesuriad newydd o ddiffyg atgyweirio gan ddefnyddio data peryglon categori 1 a Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) (ar gyfer yr holl ddeiliadaethau) gan ddefnyddio data newydd Arolwg Cyflwr Tai Cymru wedi'u modelu i lefel ardaloedd bach gan ddefnyddio ffynonellau data gweinyddol. Rhoddir ystyriaeth i bwysoli'r parth Tai o fewn y mynegai cyflawn.

Cynhelir digwyddiadau gweminar ar 7 Tachwedd a 3 Rhagfyr gyda fersiwn Gymraeg ar 29 Tachwedd.

## **Cam gweithredu: JD i anfon dolen i ymgynghoriad MALIC at aelodau'r Grŵp Gwybodaeth Tai**

### **Yr angen a'r galw am dai – Luned Jones**

Rhoddodd LJ drosolwg o'r prosiect. Cafodd yr amcangyfrifon presennol o'r angen a'r galw am dai eu cynhyrchu gan Alan Holmans a'u cyhoeddi yn 2015. Mae angen dirfawr am amcangyfrifon mwy cyfredol ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn darparu gwybodaeth i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ogystal â phenderfyniadau parhaus ar bolisi tai ac i ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr [Adolygiad o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy yng Nghymru](#)

Sefydlwyd gweithgor technegol sy'n cynnwys rhanddeiliaid allanol o awdurdodau lleol a CLILC. Adolygodd y gweithgor ddulliau gweithio ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig, a daeth i'r casgliad y gellid addasu offeryn Excel ar yr angen a'r galw am dai, a ddatblygwyd gan Lywodraeth yr Alban, trwy gydweithio rhwng swyddogion yng Nghymru a'r Alban er mwyn diwallu ein hanghenion.

Bydd Cam 1 yn cynhyrchu amcangyfrif lefel uchel cenedlaethol a rhanbarthol o'r angen am gartrefi ychwanegol yn y dyfodol ar sail amcanestyniadau aelwydydd ac amcangyfrifon o'r angen heb ei ddiwallu sy'n bodoli eisoes. Caiff hwn ei gyhoeddi yn gynnar yn 2019. Bydd Cam 2 yn darparu rhaniad yn ôl deiliadaeth o'r ffigurau lefel uchel gan ddefnyddio rhagdybiaethau ynghylch incwm a phrisiau tai a rhent yn y dyfodol. Caiff hwn ei gyhoeddi yn ddiweddarach yng ngwanwyn 2019. Ochr yn ochr â chamau 1 a 2, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n cydweithio ag awdurdodau lleol i ystyried pa mor dda mae'r offeryn newydd yn ffitio wrth ochr y broses Aseidiadau o'r Farchnad Dai Leol sy'n bodoli eisoes.

## **Arolwg Cyflwr Tai Cymru - Gowan Watkins (GW) / Gareth Brand (GB)**

Rhoddodd GW drosolwg o'r arolwg a'r datblygiadau diweddaraf. Caiff y canlyniadau cyntaf o'r arolwg eu cyhoeddi ar ffurf crynodeb lefel uchel ar ddiwedd mis Tachwedd 2018. Bydd adroddiadau pwnc manylach yn dilyn yn ystod 2019 gan gynnwys adroddiad manwl ar dlodi tanwydd. Mae cynllun cyhoeddiadau ar gael ar [wefan yr Arolwg](#).

Rhoddodd GB drosolwg o'r Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru ynghyd â diweddariad ar gynnydd. Mae GB wedi bod yn cydweithio'n agos â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac yn cysylltu â

nifer o ddarparwyr data posibl. Mae gwaith cysylltu data eisoes wedi cael ei gyflawni a chafwyd yr ychydig setiau data cyntaf – Tystysgrifau Perfformiad Ynni, Rhentu Doeth Cymru a Chofrestra Dir Ei Mawrhydi. Mae gwaith glanhau data a chysylltu data'n parhau, yn ogystal ag ystyried diogelu data a GDPR.

Ariannwyd y prosiect hwn yn wreiddiol am dair blynedd, sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2019. Ceisir cael cymeradwyo arian am ddwy flynedd arall.

### **Uned Ymchwil Data Gweinyddol - Cymru – Craiger Solomons (CS)**

Rhoddodd CS drosolwg o'r uned newydd o fewn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi. Nod yr uned yw cwestiynu a chanfod y data sydd ar gael i'w dadansoddi. Maes tai fydd un o'r rhai cyntaf i gael eu hystyried, a nod yr uned yw gwella'r mynediad at setiau data eraill er mwyn caniatáu mwy o gymharu ar draws setiau data ac ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig. Bydd yr uned yn cydweithio â Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol – Cymru i gyflawni blaenoriaethau ymchwil.

### **Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol - Cymru – Peter Mackie (PM)**

Rhoddodd PM ddiweddariad ar y prosiect hwn, sy'n rhan o gynllun gwaith y Bartneriaeth Ymchwil Data Gweinyddol. Mae'n disodli'r Rhwydwaith Ymchwil Data Gweinyddol blaenorol, ac mae wedi'i ariannu am ddwy flynedd. Ian Thomas yw'r prif ymchwilydd, gyda rhywfaint o fewnbwn gan PM. Mae'r prosiectau arfaethedig yn cynnwys edrych ar 'Byw yn y Sector Rhentu Preifat' gan gysylltu â data iechyd, iechyd meddwl ac addysg, ac 'Effaith Digartrefedd' gan gysylltu eto â data ar addysg, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol.

### **Gwaith trawslywodraethol ar ystadegau tai – Sue Leake (SL)**

Rhoddodd SL drosolwg o'r gwaith trawslywodraethol i wella ystadegau tai.

Ym mis Tachwedd 2017 cyhoeddodd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau adroddiad ar ystadegau Tai a Chynllunio ar draws y Deyrnas Unedig, a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion gwella gan gynnwys gwell cydweithio rhwng adrannau llywodraethol ar draws y Deyrnas Unedig. Sefydlwyd gweithgor Ystadegau Tai Trawslywodraethol ym mis Tachwedd 2017 ac mae wedi datblygu cynllun gwaith mewn ymateb i rai o argymhellion adroddiad y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. Cyfarfu'r grŵp diwethaf ar 10 Medi 2018 a chyhoeddwyd [blog ynghylch gwaith y gweithgor](#) (Saesneg yn unig) ar wefan Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar 26 Medi 2018.

Mae [cynllun gweithredu i'r Gweithgor](#) (Saesneg yn unig) wedi cael ei gyhoeddi a bydd yn cael ei ddiweddarau o dro i dro. Bydd yr adroddiad pwnc cyntaf sy'n cael ei gyd-gynhyrchi gan y gweithgor, ynghylch y sector rhentu preifat, yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018.

Sefydlwyd Grŵp Llywio ar Ystadegau Tai o eiddo Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ym mis Mai 2018. Mae'n cael ei gadeirio gan y dirprwy Ystadegydd Cenedlaethol ac yn cynnwys uwch gynrychiolwyr ystadegol o adrannau llywodraeth y DU a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Nod y grŵp yw canfod anghenion defnyddwyr a chytuno ar flaenoriaethau lefel uchel ar gyfer ystadegau tai ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r grŵp wedi cynhyrchu fframwaith ystadegol lefel uchel ar gyfer ystadegau tai a chynllunio. Ym mis Awst aeth tudalen we newydd [Ystadegau Tai a Chynllunio Gwasanaeth Ystadegol Llywodraeth y DU](#) (Saesneg yn unig) yn fyw. Mae'r dudalen yn cynnwys dolenni i Drosolwg ac i Arweiniad i Ystadegau Tai a Chynllunio.

### **Cam gweithredu: JD i anfon yr holl ddolenni perthnasol at aelodau'r Grŵp Gwybodaeth Tai**

#### **6. Gwaith Dadansoddi Tai Llywodraeth Cymru (Papur diweddarau) – Judy David (JD)**

Aeth JD dros y papur diweddarau sy'n cynnwys braslun o'r cyhoeddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac sydd ar y gweill. Mae'r papur hefyd yn nodi datblygiadau diweddar o ran ystadegau tai, prosiectau ymchwil tai a phrosiectau cynllunio. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ymgynghoriadau Tai a Chynllunio.

## **7. Unrhyw fusnes arall**

Gofynnodd PW i'r rhai oedd yn bresennol ystyried themâu posibl ar gyfer seminar y Grŵp Gwybodaeth Tai ym mis Ionawr 2019 neu gysylltu â ni os byddent yn nodi eitem benodol yr hoffent iddo gael sylw.

Dywedodd JH wrth y grŵp mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf ac y bydd yn rhoi gwybod inni pwy fydd yn cynrychioli Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yn ei le. Diolchodd PW i JH ar ran holl aelodau'r Grŵp Gwybodaeth Tai am ei gyfraniad sylweddol i'r grŵp hwn dros nifer o flynyddoedd.

## **8. Diwedd y cyfarfod a dyddiad y cyfarfod nesaf**

- Diolchodd PW i bawb a daeth â'r cyfarfod i ben
- Y digwyddiad Gwybodaeth Tai nesaf fydd y seminar blynyddol ar 24 Ionawr 2019 yng Nghaerdydd.